

Arolygu | Eglurhad

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ▶ ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdo dau lleol
- ▶ ysgolion cynradd
- ▶ ysgolion uwchradd
- ▶ ysgolion arbennig
- ▶ unedau cyfeirio disgyblion
- ▶ ysgolion annibynnol
- ▶ addysg bellach
- ▶ dysgu oedolion yn y gymuned
- ▶ hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol
- ▶ gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- ▶ addysg a hyfforddiant athrawon
- ▶ Cymraeg i oedolion
- ▶ dysgu yn y gwaith
- ▶ dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- ▶ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Llywodraeth Cymru ac eraill
- ▶ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyflwyniad

Rydym yn gobeithio bod y wybodaeth yn y fan yma yn helpu i egluro rhai camsyniadau cyffredin am ofynion arolygu sy'n effeithio ar athrawon. Mae'n bwysig darllen y ddogfen hon ochr yn ochr ag arweiniad y llawlyfrau arolygu sy'n berthnasol i bob sector. Mae gennym adran Cwestiynau Cyffredin (COA) ar ein gwefan hefyd.

Os hoffech i Estyn egluro unrhyw agwedd ar ein harolygiadau, yna anfonwch neges e-bost i cyfathrebu@estyn.llyw.cymru neu anfonwch drydariad atom [@EstynAEM](https://twitter.com/EstynAEM) gan ddefnyddio'r hashnod [#ChwedlauAmEstyn](https://twitter.com/ChwedlauAmEstyn)

C1. A fydd arolygwyr yn arsylwi pob athro/athrawes mewn ysgol?

Bydd hyn yn dibynnu ar natur a maint yr ysgol sy'n cael ei harolygu. Mewn ysgol gynradd fechan, mae'n debygol y caiff pob un o'r athrawon eu harsylwi. Fodd bynnag, mewn ysgol gynradd fawr ac mewn ysgolion uwchradd, bydd y tîm arolygu'n samplu gwaith athrawon.

C2. A fydd arolygwyr yn arsylwi athrawon am y wers gyfan?

Fel arfer, bydd arolygwyr yn aros am gyfnod rhesymol o amser i gasglu'r dystiolaeth sydd ei hangen arnynt. Mewn ysgolion cynradd, byddant yn aml yn aros am sesiwn (er enghraifft, o'r egwyl ganol bore hyd at amser cinio). Mewn ysgolion uwchradd, maent yn debygol o aros am y wers gyfan.

C3. A oes rhaid i athrawon ddarparu cynllun gwर्स ysgrifenedig?

Nid yw'n ofynnol i athrawon lunio cynllun gwर्स i'w roi i'r arolygydd sy'n ymweld â'r wers. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn disgwyl gweld tystiolaeth o gynllunio effeithiol ar gyfer y cwricwlwm (er enghraifft cynlluniau gwaith) sy'n sicrhau bod gweithgareddau'n bodloni anghenion pob un o'r dysgwyr ac yn eu galluogi i wneud cynnydd digonol.

C4. A oes gan arolygwyr ddulliau dewisol ac a ydynt yn disgwyl i athrawon ddilyn y rhain?

Nid oes gan Estyn restr wirio ar gyfer arferion penodol na methodoleg ddewisol. Ffocws arsylwi gwर्स yw cynnydd a chyflawniad dysgwyr ac effaith strategaethau addysgu ar y rhain. Gall cynnydd a chyflawniad da ddeillio o amrywiaeth o arferion a methodoleg. Bydd arolygwyr yn disgwyl i athrawon olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol ond nid oes ganddynt systemau dewisol ar gyfer gwneud hyn.

C5. Pa strwythur gwर्स fydd yr arolygwyr yn disgwyl i athrawon ei ddilyn?

Nid oes strwythur neu batrwm gwर्स 'wedi ei gymeradwyo gan Estyn'. Er enghraifft, nid oes angen i athrawon gyflwyno'r amcan dysgu yn ffurfiol ar ddechrau gwर्स na gorffen gyda sesiwn lawn i arolygwyr farnu bod gwर्स yn dda. Mae'r ffocws allweddol ar effeithiolrwydd y wers o ran safonau a dysgu, nid y dull na'r fformat.

C6. A yw arolygwyr yn disgwyl gweld llythrennedd a rhifedd yn cael eu haddysgu ym mhob gwर्स?

Pan fydd arolygwyr yn arsylwi gwर्स yn ystod arolygiadau, nid oes blychau ticio ganddynt i'w llenwi ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Dylai athrawon fanteisio ar y cyfleoedd sy'n digwydd yn naturiol yn y cwricwlwm i atgyfnerthu dysgu mewn llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, ni ddylai hyn olygu bod llythrennedd a rhifedd yn troi'n ddeddf y mae'n rhaid ei chynnwys ym mhob gwर्स yn y diwrnod ysgol, ni waeth beth yw'r pwnc.

C7. Faint o dystiolaeth o waith disgyblion y bydd arolygwyr eisiau ei gweld?

Bydd arolygwyr eisiau craffu ar sampl o waith disgyblion. Gan amlaf, byddant yn gofyn i weld sampl o grwpiau blwyddyn neu bynciau penodol. Bydd yr arolygydd cofnodol yn cyflwyno'r ceisiadau hyn yn glir i'r ysgol yn y cyfarfod cyn-arolygu. Bydd arolygwyr yn canolbwyntio ar ansawdd gwaith disgyblion mewn Cymraeg a/neu Saesneg a Mathemateg a pha mor dda y maent yn cymhwysu'u medrau llythrennedd a rhifedd mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm.

C8. A fydd athrawon yn cael barn ar eu gwrs unigol?

Na fyddant, er y bydd cyfle am ddeialog broffesiynol â'r arolygydd ar ôl y wers. Diben arsylwi gwrsi yw dilysu'r datganiadau a wnaed yn adroddiad hunanarfarnu'r ysgol am ansawdd cyffredinol yr addysgu yno. Bydd arolygwyr yn canolbwyntio ar y cryfderau a'r diffygion yn y wers o safbwynt ei heffaith ar ddatblygu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth disgyblion, a'u cynnydd. Hefyd, bydd arolygwyr yn defnyddio gwybodaeth arall, fel craffu ar waith disgyblion, cofnodion asesu, data perfformiad a sylwadau gan ddisgyblion a rhieni, er mwyn llunio barn gyffredinol ar ansawdd yr addysgu yn yr ysgol.

C9. Beth gall athro/athrawes neu ysgol ei wneud os yw'n credu bod unrhyw un o farnau'r arolygiad yn annheg neu os oes ganddynt bryderon am y dull o gynnal arolygiad?

Os oes pryder gan athro/athrawes, dylai siarad ag enwebai'r ysgol cyn gynted â phosibl am y mater yn y lle cyntaf, gan mai'r enwebai yw'r cyswllt gorau â'r tîm arolygu. Bydd yr enwebai yn trafod y mater gyda'r arolygydd cofnodol.

Gall yr ysgol ond herio canfyddiadau'r tîm arolygu ar sail anghywirdeb ffeithiol neu os yw o'r farn na chynhaliwyd yr arolygiad yn unol â chod ymarfer Estyn ar gyfer Arolygwyr. Ni ddylai'r ysgol herio barnau dim ond oherwydd ei bod yn anghytuno â nhw. [Mae rhagor o wybodaeth am bolisi cwyno Estyn ar gael yma.](#)

C10. A allaf weld nodiadau'r wers a wnaed gan yr arolygydd wrth arsylwi gwrs/sesiwn?

Pan fydd arolygwyr yn llenwi ffurflenni tystiolaeth ar gyfer addysgu, gallant gynnwys data personol. Yn yr achosion hyn, gallant fod yn agored i'w datgelu i'r athro/athrawes unigol dan y Ddeddf Diogelu Data. Fodd bynnag, rydym yn gofyn i arolygwyr arfarnu a thrafod y cryfderau a'r diffygion mewn addysgu sy'n ymwneud â phob gwrs/sesiwn a arsylwyd. O ganlyniad, efallai na fydd yn bosibl cysylltu unrhyw sylwadau ag athro/athrawes neu unrhyw wers/sesiwn benodol. Yn yr achosion hyn, ni fyddwn yn gallu datgelu unrhyw wybodaeth, oherwydd nid yw'n ymwneud ag unrhyw unigolyn penodol.

C11. A fydd arolygwyr yn arfarnu gwaith staff cymorth?

Mae'r holl staff yn chwarae rhan mewn arolygiad, nid dim ond y rhai y mae arolygwyr yn eu harsylwi neu yn cyfweld â nhw. Gallai arolygwyr arfarnu gwaith staff cymorth a arsylwant mewn gwrsi neu pan fyddant yn ymwneud â disgyblion, er enghraifft, yn y grwpiau ymyrryd neu yn ystod amser cinio. Hefyd, gallai arolygwyr gyfweld â staff cymorth er mwyn casglu'r dystiolaeth y mae ei hangen arnynt i ddilyn trywydd ymholi penodol.

C12. A fydd arolygwyr yn arsylwi gwrsi gan athrawon llanw yn ystod yr arolygiad?

Gall arolygwyr arsylwi gwrsi/sesiynau sy'n cael eu haddysgu gan athro llanw/athrawes llanw neu drefniadau llanw eraill, os ydynt yn rhan o drywydd ymholi.

C13. A fydd y tîm arolygu'n cynnwys arolygwyr Cymraeg eu hiaith i farnu medrau cyfathrebu dysgwyr yn Gymraeg?

Bydd. Bydd o leiaf un arolygydd ar bob tîm sydd â medrau digonol yn y Gymraeg i farnu ansawdd medrau Cymraeg disgyblion ar lefel sy'n briodol ar gyfer oedrannau'r disgyblion.

C14. A allaf wrthod gadael arolygydd i mewn i'm hystafell ddosbarth ac a oes gan arolygwyr hawl gyfreithiol i graffu ar y gwerthusiad o'm perfformiad?

O dan y pwerau cyfreithiol a roddir i'r Prif Arolygydd, mae hawl gyfreithiol gan arolygwyr arolygu ysgolion, arsylwi gwersi a chraffu ar dystiolaeth. Mae rhwystro arolygydd rhag gwneud ei waith, gan gynnwys ei atal rhag cael mynediad i ysgol neu ystafell ddosbarth, yn drosedd. O ran rheoli perfformiad, mae angen i'r ysgol ddangos i'r arolygwyr bod ei system rheoli perfformiad yn drylwyr ac yn cyfrannu'n effeithiol at nodi anghenion hyfforddiant a datblygu. Fodd bynnag, nid oes gan arolygwyr hawl i edrych ar adroddiadau rheoli perfformiad athrawon unigol. Mae'r rhain yn gyfrinachol. Gallai ysgolion ddarparu cofnodion dienw fel modd o ddangos eu system rheoli perfformiad.

C15. Sut bydd arolygwyr yn defnyddio'r System Genedlaethol ar gyfer Categorioreiddio Ysgolion?

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru System Genedlaethol ar gyfer Categorioreiddio Ysgolion i bob ysgol gynradd ac ysgol uwchradd. Mae'n bwysig nodi bod arolygiadau Estyn yn annibynnol a bod eu gwaith arolygu mewn ysgol yn cwmpasu ystod ehangach o ystyriaethau na'r hyn y mae'r System Genedlaethol ar gyfer Categorioreiddio Ysgolion yn ei ystyried. Bydd Estyn yn ystyried categorioreiddio ochr yn ochr â gwybodaeth arall fel rhan o waith cyn-arolygiad a phennu trywyddau ymholi, ond ni fydd categorioreiddio yn llywio deilliannau arolygu yn uniongyrchol.

C16. A yw Estyn yn disgwyl i ysgolion gynnal 'arolygon ffug' er mwyn paratoi ar gyfer arolygiad?

Nac ydyw. Rydym yn annog ysgolion i beidio â chynnal 'arolygon ffug'. Bob dydd, dylai ffocws ysgolion fod ar gyflwyno addysg o safon uchel er budd yr holl ddisgyblion.

C17. A oes disgwyl i ysgolion ysgrifennu adroddiad hunanarfarnu newydd sbon ar gyfer arolygiad?

Nac oes. Nid oes rhaid i ysgolion ysgrifennu hunanarfarniad newydd sbon na defnyddio hyperddolenni ynddo i'w polisïau a dogfennau eraill.

C18. A oes angen i mi roi dogfennau'r ysgol ar gofbin neu ar yriant caled?

Bydd angen i arolygwyr ystyried tystiolaeth, ond byddant yn hapus i edrych arni yn y fformat y mae ynddi'n barod. Nid oes disgwyl i ysgolion roi unrhyw ddogfennau papur ar gofbinnau neu ar yriant caled allanol ar gyfer pob arolygydd.

C19. A fydd ysgolion yn gwybod beth yw barn yr arolygwyr cyn diwedd yr arolygiad?

Nid yw arolygwyr yn cadw'u canfyddiadau iddyn nhw'u hunain. Byddant yn eu rhannu gyda'r enwebai cyn diwedd yr arolygiad.

C20. A oes disgwyl i ysgolion ddarparu cinio i'r arolygwyr?

Nac oes. Nid oes rhaid i ysgolion ddarparu cinio, cacennau, bisgedi neu bowlenni o ffrwythau ar gyfer arolygwyr, ond byddai'n ddefnyddiol petaent yn gallu darparu cyfleusterau sylfaenol ar gyfer gwneud te/coffi.

C21. A oes disgwyl i'r ysgol drefnu cyfarfod i arolygwyr gwrdd â phartneriaid allweddol yr ysgol?

Nac oes. Nid oes rhaid i ysgolion drefnu cyfarfodydd rhwng eu partneriaid allweddol a'r tîm arolygu.

C22. A fydd y defnydd o TGCh, rhifedd, llythrennedd a Chymraeg yn cael ei farnu ym mhob gwers?

Nid oes disgwyl i ysgolion greu cyfleoedd i ddisgyblion ddangos eu medrau mewn TGCh, rhifedd, llythrennedd neu Gymraeg ym mhob gwers.

C23. A oes rhaid i'r hyn rydym ni'n ei wneud fod yn unigryw er mwyn i ni gael barn 'Rhagorol'?

Gellir cyflawni barn 'Rhagorol' o ganlyniad i nifer o ffactorau. Nid yw 'bod yn unigryw' ar ei ben ei hun yn rheswm digonol dros ddyfarnu barn 'Rhagorol'. Dylai 'Rhagorol' bob amser gysylltu'n agos â darpariaeth hynod effeithiol sy'n helpu dysgwyr i gyflawni safonau uchel.

C24. A fydd angen i'r arolygwyr gael mynediad i'r ysgol y tu hwnt i oriau gwaith arferol?

Na fydd. Bydd arolygwyr yn cyrraedd ac yn ymadael ar amseroedd rhesymol, h.y. rhwng 8am a 6pm fel arfer (oni bai bod darpariaeth gyda'r nos yn rhan o waith arferol y darparwr).

C25. A yw'n orfodol i ysgolion ailysgrifennu eu polisïau a'u cynlluniau addysgu cyn arolygiad?

Nid oes angen i ysgolion ddiwygio eu polisïau a'u cynlluniau gwaith cyn i'r arolygwyr gyrraedd. Y nod yw gweld yr ysgol yn gweithio yn ôl yr arfer a gweld y polisïau a'r cynlluniau mae'r athrawon yn eu defnyddio fel arfer.

C26. Mae ein Cyngerdd Nadolig wedi'i drefnu ar gyfer yr un wythnos â'r arolygiad. A oes angen i ni ei ganslo?

Dim o gwbl. Nid oes angen i ysgolion ganslo'r cyngerdd Nadolig i baratoi ar gyfer yr arolygiad.